Golygyddol – Datganoli Cyfrifoldeb: Mandad, Cyflwyno a System Dan Straen

Tom Crick[1], Enlli Thomas[2] a Gary Beauchamp[3]
[1]Prifysgol Bryste (tom.crick@bristol.ac.uk)
[2]Prifysgol Bangor (enlli.thomas@bangor.ac.uk)
[3]Prifysgol Metropolitan Caerdydd (gbeauchamp@cardiffmet.ac.uk)

Cyhoeddir y rhifyn hwn o *Gylchgrawn Addysg Cymru* ym mis Tachwedd 2026, tua chwe mis i mewn i dymor Llywodraeth gyntaf Cymru dan arweiniad Plaid Cymru, gyda Rhun ap Iorwerth yn Brif Weinidog, Anna Brychan yn dal briff cyfunol y Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, a Cefin Campbell yn Ddirprwy Weinidog Sgiliau ac Addysg Drydyddol – trefniant gweinidogol sydd ei hun yn arwydd o sut y mae'r Llywodraeth hon yn bwriadu rhwymo ysgolion, addysg bellach ac uwch, a pholisi iaith gyda'i gilydd yn dynn mewn un system addysg a sgiliau fwy cydgysylltiedig. Mae hefyd yn dilyn digwyddiad cyfansoddiadol ar lefel y DU a oedd yn dal i fynd rhagddo wrth i'r darn golygyddol hwn gael ei ysgrifennu ym mis Gorffennaf 2026: diolch i ymddiswyddiad Syr Keir Starmer a dyfodiad Andy Burnham fel ei olynydd yn Brif Weinidog y DU, roedd siâp datganoli, nid dim ond ei ymarfer, yn ôl ar yr agenda wleidyddol i'r pedair cenedl. Roedd y ffaith bod Prif Weinidog Cymru yn mynnu setliad tecach ar gyllid a phwerau, a San Steffan yn ymateb gyda chynnig amwys i ymestyn datganoli yn ddyfnach tuag at y dinasoedd a'r rhanbarthau (ITV News Wales, 2026), yn cadarnhau bod cwestiynau parthed ymhle mae'r grym, a phwy sy'n atebol am beth, yn destun dadl newydd o'r iawn ryw. Bydd darllenwyr y rhifyn hwn ym mis Tachwedd eisoes yn gwybod mwy nag oeddem ni ym mis Gorffennaf am sut y datblygodd y setliad hwnnw. Yr hyn a oedd yn wir hyd yn oed yn yr haf, fodd bynnag, oedd bod telerau'r ddadl wedi newid yn sylweddol.

Nid stori am Fae Caerdydd a San Steffan yn unig yw datganoli. Roedd addysg yn un o feysydd sylfaenol cymhwysedd datganoledig pan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gan roi awdurdod i

https://doi.org/10.16922/wje.28.2gol

Gymru dros ysgolion, colegau a phrifysgolion o'r cychwyn cyntaf a gosod y patrwm ar gyfer popeth sydd wedi dilyn (Moon ac Evans, 2017; Knight et al., 2025). Dylid ei ystyried hefyd fel un o egwyddorion trefniadol y Cwricwlwm i Gymru ei hun. Fel y dywed canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru ei hun, 'mae'r Fframwaith yn rhoi cyfle i bob ysgol yng Nghymru gynllunio ei chwricwlwm ei hun o fewn dull cenedlaethol' (Llywodraeth Cymru, 2020), gan gynnig yr ymreolaeth a'r galluogedd i ysgolion ac ymarferwyr i ddewis y profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau penodol a fydd yn cefnogi eu dysgwyr eu hunain orau, o fewn disgwyliadau a ddiffinnir yn genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2022). Datganoli ar raddfa fechan yw hyn: trosglwyddwyd cyfrifoldeb am gynllunio'r cwricwlwm o'r canol i'r ysgol, ar y rhagdybiaeth mai'r rheini sydd agosaf at y dysgwyr sydd yn y sefyllfa orau i'w gwasanaethu. Mae chwe phapur y rhifyn hwn, gyda'i gilydd, yn olrhain yr hyn sy'n digwydd wrth i gyfrifoldeb symud trwy'r system ddatganoledig hon – o'r llywodraeth i'r ysgol, o bartneriaeth i ymarferydd – pan nad yw'r amodau i'w arfer yn dda bob amser yn symud i'r un cyfeiriad â'r cyfrifoldeb hwnnw (Davies a Beauchamp, 2024).

Mae'r cyd-destun polisi ehangach yn rhoi pwys go iawn i'r cwestiwn hwn. Mae sefydliadau addysg uwch wedi parhau i weithredu o dan bwysau diffyg parhaus drwy'r cyfnod hwn, hyd yn oed wrth i ailstrwythuro ledled y sector ddangos rhyw arwydd o sefydlogi erbyn 2027/28. Roedd can diwrnod cyntaf y Llywodraeth newydd yn cynnwys cynnydd o £5,000 i gymhelliant addysg gychwynnol athrawon (AGA) ar gyfer pynciau blaenoriaeth, gan ei godi i £20,000; gweithred gadarn, gynnar i ofalu am y gweithlu, ond un sy'n cyferbynnu â'r canfyddiad mwy sobreiddiol, a adroddir yn y rhifyn hwn, bod arweinyddiaeth partneriaethau AGA ledled Cymru yn parhau i fod o dan straen sylweddol (Estyn, 2026). Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei misoedd cyntaf hefyd i ailddatgan ymrwymiad maniffesto ar y Gymraeg, gan adeiladu tuag at darged, a osodwyd yn gyntaf o dan y weinyddiaeth flaenorol, o hanner plant Cymru yn dechrau ar eu taith mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Mae Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol newydd, sydd i'w gyhoeddi yr hydref hwn, yn nodi strwythur 0–16 o ddangosyddion cenedlaethol. Yn y cyfamser, mae gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn parhau i ddatgelu'r bwlch rhwng cynllunio egwyddorol a realiti ymarfer y mae golygyddion diweddar *Cylchgrawn Addysg Cymru* wedi'i nodi dro ar ôl tro (Crick, Beauchamp a Thomas, 2024; Crick, Beauchamp a Thomas, 2026).

Mae Smith a Hewitt yn agor y rhifyn gydag Ysgogwyr Newid, gan adrodd ar adnodd rhyngweithiol amlieithog wedi'i gyd-ddylunio a adeiladwyd gyda dinasyddion

ifanc Cymru rhwng 16 a 24 oed i gryfhau addysg wleidyddol a dinasyddiaeth. Gan dynnu ar ymchwil dulliau cymysg i ddealltwriaeth pobl ifanc o sefydliadau gwleidyddol y DU, mae'r astudiaeth yn canfod bylchau sylweddol mewn gwybodaeth: yn fwyaf nodedig ynghylch llywodraethu datganoledig a phwy sydd mewn gwirionedd yn gyfrifol am y materion sy'n bwysig i fywydau pobl ifanc. Yn hytrach na thrin hyn fel diffyg i'w gywiro trwy addysgu, mae'r awduron yn gosod pobl ifanc fel cyd-ddylunwyr ac fel actorion gwleidyddol sydd eisoes yn ymwneud â 'gwleidyddiaeth bob dydd' (Harris et al., 2010), gan ailfframio addysg dinasyddiaeth fel rhywbeth perthynol, wedi'i gyfryngu'n ddigidol a'i seilio mewn profiad bywyd yn hytrach na'i gyfyngu i bwnc cwricwlwm unigol. Mae'r wefan sy'n deillio o'r gwaith yn integreiddio ymgysylltu yn null y cyfryngau cymdeithasol â hygyrchedd amlieithog, gan adlewyrchu dewisiadau y cyfranogwyr eu hunain ar gyfer sut y dylai gwybodaeth wleidyddol eu cyrraedd. Mae cyfraniad canolog y papur yn un methodolegol yn gymaint ag y mae'n un sylweddol: mae'n dangos sut y gall cyd-gynllunio sy'n canolbwyntio ar ieuenctid gynhyrchu adnoddau sy'n taro tant yn hytrach na phregethu. Mae ei ganfyddiadau yn arbennig o bwysig o ystyried y dryswch y mae'r awduron yn ei nodi ynghylch ymhle mae'r grym mewn gwirionedd o fewn setliad datganoledig y DU: yr union fath o lythrennedd sefydliadol sydd ei angen ar frys, diolch i ddigwyddiadau'r flwyddyn, wrth i'r ddadl gyfansoddiadol ynghylch siâp a lleoliad grym ledled y DU ddwysáu.

Mae Huskinson, Evans-Jones, Andrews a Healand-Sloane yn archwilio paradocs strwythurol sydd wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru: mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn elfen orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr 3–16 oed, ond nid yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 na'r canllawiau cysylltiedig yn nodi unrhyw isafswm o ran dyraniad amser na model cyflwyno. Y canlyniad, yn ôl yr awduron, yw bod un ddyletswydd gyfreithiol yn cynhyrchu hawliau hynod wahanol, yn dibynnu ar ba ysgol y mae dysgwr yn ei mynychu, o addysgu arbenigol wythnosol i ddiwrnodau achlysurol lle mae'r ysgol yn cefnu ar yr amserlen arferol i addysgu pwnc penodol. Caiff yr amwyster hwn ei ddwysáu ym Mlynyddoedd 10–11 yn sgil dileu'r TGAU Astudiaethau Crefyddol cwrs byr, a oedd gynt yn angori amser yn y cwricwlwm i lawer o ddysgwyr ac sydd bellach yn gadael bwlch strwythurol heb fecanwaith i'w lenwi. Mae eu pecyn arfaethedig o ddiwygiadau – yn cynnwys hawl o ran isafswm amser yn genedlaethol, meincnodau arolygu cryfach gan Estyn, canllawiau pontio ar gyfer Blynyddoedd 10–11, a buddsoddiad parhaus mewn dysgu proffesiynol a rhwydweithiau pynciau – yn cael ei gyflwyno'n benodol fel un sy'n

cefnogi yn hytrach na rhwystro ymreolaeth ysgolion o ran cynllunio'r cwricwlwm. Mae'r papur yn cynnig astudiaeth achos addysgiadol ar sut y gall yr un rhyddid cynllunio datganoledig sy'n caniatáu i ysgolion adeiladu cwricwla sy'n addas i'w dysgwyr eu hunain, heb rwystrau cenedlaethol, gynhyrchu annhegwch sy'n tanseilio dibenion dinesig y Cwricwlwm i Gymru.

Mae Waters-Davies a Livingston yn adrodd ar Gam 2 astudiaeth hydredol i fodel partneriaeth prifysgol-ysgol gorfodol ar gyfer AGA yng Nghymru, gan archwilio sut y mae addysgwyr athrawon yn profi 'cydberchnogaeth' a 'chyfrifoldeb ar y cyd' tua deunaw mis ar ôl ei weithredu. Gan adeiladu ar eu canfyddiad cynharach bod staff mewn prifysgolion wedi profi mwy o bwysau emosiynol a llai o alluogedd na chydweithwyr mewn ysgolion yn ystod cyfnod ffurfio'r bartneriaeth (Livingston a Waters-Davies, 2024), mae'r papur hwn yn canfod, er bod 'gweithgareddau pontio' wedi plannu hadau cynnar galluogedd perthynol (Edwards, 2005), bod arferion sefydliadol a chysylltiadau grym sydd wedi hen ennill eu plwyf yn parhau i raddau helaeth o dan arwyddion gweladwy newid. Daw'r awduron i'r casgliad nad yw'r bartneriaeth wedi cyrraedd trobwynt diwylliannol gwirioneddol eto: nid yw datganoli cyfrifoldeb strwythurol wedi'i orchymyn gan bolisi, ar ei ben ei hun, wedi cynhyrchu'r galluogedd perthynol y mae Zeichner (2024) yn dadlau sydd ei angen ar bartneriaeth o'r iawn ryw. Mae'r papur yn dadlau bod partneriaeth gynaliadwy yn gofyn am gyfle parhaus ar gyfer 'micro-drafodaethau' rhwng unigolion, nid strwythurau trefniadol newydd yn unig, a bod angen cydnabyddiaeth a chefnogaeth benodol ar ddimensiynau emosiynol newid sefydliadol. Mae hwn yn gyfrif gonest, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o'r ffordd bell sydd i fynd o ran gweithredu – o'r mandad datganoledig i ymarfer go iawn sy'n rhoi grym ymarferol a galluogol i unigolion.

Mae Grigg yn ymestyn y cyfrif hwn dros amserlen hwy o lawer, gan gymhwyso fframwaith 'gorffennol y gellir ei ddefnyddio' i fentora yn AGA Cymru, o Adroddiad McNair 1944 trwy ddiwygiadau olynol i bartneriaethau ac achredu hyd heddiw. Gan dynnu ar ddadansoddiad dogfennol o adroddiadau arolygu a dogfennau polisi, mae'r papur yn dod o hyd i gysondeb hanesyddol trawiadol: nodwyd mentora dro ar ôl tro fel elfen ganolog i baratoi athrawon, ac eto nid yw'r amodau sydd eu hangen i sicrhau ei ansawdd, ei degwch a'i statws proffesiynol erioed wedi'u sefydlu'n barhaol. Cafodd pob un o'r saith partneriaeth AGA a arolygwyd gan Estyn rhwng 2021 a 2025 argymhellion i wella cysondeb y mentora, ac mae arweinyddiaeth AGA ei hun yn cael ei disgrifio gan Estyn (2026) fel un 'fregus a simsan'. Mae Grigg yn

nodi pwysau cyfunol ar lefel unigolion, partneriaeth a system – o farnfentora, sy'n cyfyngu ar ddeialog fyfyriol (cf. Grigg et al., 2024), i fodelau partneriaeth ariannol anghynaliadwy, i ddeiliadaeth tymor byr gweinidogion sydd oll yn tarfu ar barhad polisi – sy'n cael ei gyfleu ar ffurf delwedd gofiadwy o feic tandem lle mae un partner wrthi'n troi'r pedalau yn galed tra bod y llall yn hwylio mynd. Mae argymhellion y papur yn cynnig ymateb hanesyddol i'r ymdeimlad, sy'n amlwg mewn mannau eraill yn y rhifyn hwn, bod datganoli cyfrifoldeb heb fuddsoddiad parhaus yn siŵr o atgynhyrchu'r problemau y mae'n bwriadu eu datrys. Maent yn cynnwys codi statws proffesiynol mentora trwy achrediad a llwybrau gyrfa, cryfhau prosesau dethol a hyfforddi mentoriaid, a datblygu canolfannau dysgu proffesiynol rhanbarthol.

Os yw argymhellion Grigg yn canolbwyntio ar fuddsoddiad parhaus mewn seilwaith dysgu proffesiynol, mae Thomas, Caulfield, Roberts a Hughes yn archwilio sut y gall y buddsoddiad hwnnw edrych yn ymarferol, gan werthuso *Ein Llais Ni* (ELIN), rhaglen o ddysgu proffesiynol cydweithredol (DPC) sy'n seiliedig ar ddylunio a gyflwynwyd ar draws naw deg pump o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei blwyddyn gyntaf o weithredu. Mae'r rhaglen wedi'i gwreiddio mewn model ymchwil gweithredu sy'n seiliedig ar ddylunio, sy'n caniatáu dull mwy systemig sy'n canolbwyntio ar ddatblygu capasiti ar gyfer newid parhaus ar lefel sefydliadol ehangach. Yn y modd hwnnw, mae ELIN yn addas ar gyfer modelau DPC sy'n cynhyrchu gwelliannau mewn ymarfer addysgol, yn yr achos hwn, gan ganolbwyntio ar un flaenoriaeth genedlaethol allweddol, sef datblygu sgiliau llafaredd disgyblion yn Gymraeg. Trwy gyfweliadau lled-strwythuredig gyda deuddeg athro ar draws saith ysgol yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'r rhaglen, mae'r astudiaeth yn canfod bod athrawon yn gwerthfawrogi'r elfennau ymyraethol, cydweithredol ac ymatebol o ddysgu traws-ysgol a adeiladwyd o amgylch nod cyffredin, ac argaeledd adnoddau a digwyddiadau proffesiynol amrywiol, hyd yn oed yng nghanol ansicrwydd cychwynnol ynghylch rolau a disgwyliadau. Adroddodd athrawon welliannau yn llafaredd y disgyblion a'u hymarfer eu hunain, er bod hunanwerthuso yn parhau i fod yn faes sydd angen arweiniad cliriach. O roi hyn yng nghyd-destun ehangach addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r awduron yn dadlau bod modelu arfer da a chyd-adeiladu strategaethau ar draws lefelau unigol, ysgol a thraws-sector, a ddatblygwyd o fewn fframwaith sy'n seiliedig ar ddylunio, yn hanfodol nid yn unig ar gyfer datblygu llafaredd ond ar gyfer adfywio'r Gymraeg yn ehangach. Lle mae cyfrifoldeb datganoledig am ddysgu proffesiynol yn cyd-fynd â chydweithredu ac adnoddau

gwirioneddol barhaus, mae'r papur hwn yn awgrymu bod athrawon yn meithrin yr hyder a'r cyd-ymarfer a fwriadwyd gan y polisi, gwrthbwynt gobeithiol i'r papurau eraill am bartneriaethau a mentora yn y rhifyn hwn, ac sy'n uniongyrchol berthnasol i dirwedd polisi sy'n canolbwyntio fwyfwy ar ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer llythrennedd sylfaenol, llafaredd a chyrhaeddiad dwyieithog.

Mae Chapman, Beauchamp a Griffiths yn dod â'r rhifyn i ben drwy archwilio canfyddiadau athrawon Celfyddydau Mynegiannol uwchradd o ddefnydd effeithiol o dechnoleg yn ystod cyfnod o darfu cymhleth: wrth i ddiwygio'r cwricwlwm a chyfyngiadau'r pandemig gyd-daro. Gan ddefnyddio dadansoddiad thematig anwythol o gyfweliadau lled-strwythuredig, mae'r awduron yn datblygu'r broses 'Diben hyd at Ganlyniad' (PtO), model sy'n cipio sut y cafodd penderfyniadau technoleg athrawon eu siapio trwy aliniad pwrpasol â phrosesau creadigol pwnc-benodol, gan y fforddiannau a'r rhwystrau penodol a gyflwynwyd gan dechnoleg o fewn pob un o ddisgyblaethau'r Celfyddydau Mynegiannol, a chan ecoleg dysgu a rennir sy'n rhychwantu'r Maes Dysgu a Phrofiad yn ei gyfanrwydd. Yn nhyb yr awduron, ailgodwyd y pandemig bryderon hirsefydlog am fynediad anghyfartal hyd yn oed wrth iddo gyflymu arferion mabwysiadu technoleg. Er nad oes modd ei gyffredinoli y tu hwnt i'r trawstoriad hwn o ymarfer, mae'r broses PtO yn gwneud cyfraniad nodedig at sylfaen ymchwil denau ar dechnoleg yn addysg y celfyddydau, gan adleisio gwaith cynharach ar drefniadaeth addysgegol bwrpasol o dechnoleg (Beauchamp a Kennewell, 2013), ac mae'n cynnig nodwr hanesyddol addysgiadol: ciplun o sut y gwnaeth ymarferwyr arfer crebwyll proffesiynol o dan ddisgresiwn datganoledig sawl blwyddyn cyn i AI cynhyrchiol ail-fframio'r un cwestiynau o ddiben, mynediad ac addysgeg ar draws y system ehangach.

Y tu hwnt i gwmpas y papur ei hun, ond yn ymwneud â'r un maes pwnc, cafodd yr un gwahaniaeth hwn rhwng crebwyll addysgegol datganoledig a grym rheoleiddio a gadwyd yn ôl ei amlygu'n drawiadol eleni gyda chyhoeddiad Llywodraeth y DU ym mis Mehefin 2026 y byddai'n cyflwyno gwaharddiad ar y cyfryngau cymdeithasol i bobl ifanc dan 16 oed, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2026 dan rymoedd a ddarperir trwy Ddeddf Llesiant Plant ac Ysgolion 2026, gyda'r rheoliadau cyntaf o bosibl yn weithredol yng Ngwanwyn 2027. Mae rheoleiddio diogelwch ar-lein yn fater wedi ei gadw i San Steffan, ond mae ei ganlyniadau'n effeithio'n uniongyrchol ar diriogaeth ddatganoledig; yn arwyddocaol, ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r cwestiwn cyfochrog o ffonau symudol mewn ysgolion nid gyda gwaharddiad Cymru

gyfan ond drwy adael y penderfyniad i ysgolion unigol, gyda'r Prif Weinidog yn gwrthod yn bendant fandad cenedlaethol, sef yr un rhesymeg dylunio datganoledig sy'n rhedeg trwy'r Cwricwlwm i Gymru ei hun. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi mynd ymhellach fyth, gan wrthwynebu'n gyhoeddus waharddiad cyffredinol fel yr offeryn cwbl anghywir, gan ddadlau ei fod yn targedu mynediad plant yn hytrach na diogelwch sylfaenol dyluniad platfformau. Yn hytrach, galwodd am ddyletswyddau statudol ar gwmnïau technoleg i sicrhau diogelwch wrth ddylunio platfformau (Comisiynydd Plant Cymru, 2026). Gyda'r rhyngrwyd bellach yn ganolog i fywydau bron pob plentyn a pherson ifanc – mae 99 y cant o bobl ifanc 8–17 oed bellach yn mynd ar-lein (Ofcom, 2026) – dim ond dwysáu y mae'r cwestiynau ynghylch tegwch a mynediad y mae Chapman et al. yn eu codi wrth i Gymru lywio tirwedd bolisi gymhleth lle mae rheoleiddio ac addysgeg yn tynnu o wahanol lefelau o'r un system ddatganoledig.

Ar draws pob un o'r chwe chyfraniad, gwelir un patrwm yn ailadrodd ei hun. Mae Cymru wedi adeiladu system addysg sydd wedi'i threfnu'n sylweddol o amgylch yr egwyddor o sybsidiaredd – sef bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mor agos â phosibl at y dysgwr – o ryddid cynllunio ar lefel ysgol y Cwricwlwm i Gymru, i fodel partneriaeth mandadol AGA, i'r symudiad ym maes addysg dinasyddiaeth tuag at adnoddau a gyd-gynhyrchir ac sy'n cael eu harwain gan y dysgwyr, ac i'r disgresiwn sydd gan ysgolion ynghylch ffonau a dyfeisiau. Mae papurau Waters-Davies a Livingston, a Grigg, ill dau yn archwilio partneriaeth a mentora AGA, un drwy waith maes hydredol agos a'r llall drwy ddadansoddiad hanesyddol, ac yn dod i gasgliad cyffredin, sobreiddiol: nid yw datganoli cyfrifoldeb ar y cyd yn sicrhau galluogedd ar y cyd. Mae Huskinson et al. yn nodi'r un patrwm strwythurol o ran hawl yn y cwricwlwm, lle mae ymrwymiad sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru i ymreolaeth cynllunio ar lefel ysgol ac absenoldeb amddiffyniadau cenedlaethol, wedi cynhyrchu'n union y math o anghysondeb cod post yr oedd y diwygiadau i fod i'w ddileu. Mae Thomas et al. yn cynnig y gwrthbwynt mwy optimistaidd: pan fo cyfrifoldeb datganoledig dros ddysgu proffesiynol yn cael yr adnoddau priodol ac yn cael ei gynnal yn ofalus, fel yn *Ein Llais Ni*, mae athrawon yn adeiladu'r hyder a'r ymarfer a rennir yn unol â bwriad y polisi. Mae Chapman et al. yn ein hatgoffa bod y cwestiynau hyn o bwrpas, mynediad a chrebwyll proffesiynol o dan ddisgresiwn datganoledig yn rhai hirsefydlog, sy'n ailgodi i'r wyneb nawr ar fyrder wrth i AI cynhyrchiol a rheoleiddio diogelwch ar-lein ledled y DU bellach gyrraedd yr un tir o gyfeiriad gwahanol, wedi'i gadw yn ôl.

Fodd bynnag, Ysgogwyr Newid gan Smith a Hewitt sy'n tystio'n fwyaf uniongyrchol i gefndir gwleidyddol ehangach y mater hwn. Dylai eu prif ganfyddiad beri i unrhyw un sy'n tybio bod strwythur sefydliadol datganoli yn cael ei ddeall yn dda gan y dinasyddion y bwriedir iddo eu gwasanaethu, oedi a meddwl: nid yw pobl ifanc yng Nghymru yn aml yn gallu nodi pwy sy'n gyfrifol am y materion sy'n effeithio ar eu bywydau, ar adeg pan oedd y bensaernïaeth honno ei hun yn destun trafod eto rhwng Bae Caerdydd a Llywodraeth newydd y DU. Dyma'r un egwyddor o sybsidiaredd yr honnodd Llywodraeth newydd y DU ei bod am ei hymestyn ar draws rhanbarthau a chenhedloedd Lloegr; mae tystiolaeth y rhifyn hwn yn awgrymu mai datganoli cyfrifoldeb yw hanner hawsaf y dasg yn gyson. Ei gydweddu ag amser, ymddiriedaeth, cyllid a datblygiad proffesiynol parhaus – datganoli capasiti yn ogystal ag atebolrwydd, ar bob lefel, o San Steffan i'r ystafell ddosbarth unigol – yw'r hyn sy'n pennu a wireddir mandad neu a achosir straen.

Wrth i'r rhifyn hwn gyrraedd darllenwyr ym mis Tachwedd 2026, tua chwe mis i mewn i dymor y Senedd hon yng Nghymru ac yn wyneb sefyllfa sy'n dal i newid o ran ymhle y gorwedd pŵer ar draws y DU – dyna'r prawf sy'n wynebu'r Llywodraeth hon, a'r system hon bellach. Nid yw'r cyfraniadau a gesglir yma yn datrys y prawf hwnnw, ond maent yn cynnig seiliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i farnu sut mae'n cael ei gyflawni – o siambr y Senedd i giât yr ysgol.

Cyfeiriadau

Beauchamp, G. a Kennewell, S. (2013). Transition in pedagogical orchestration using the interactive whiteboard. *Education and Information Technologies*, 18, 179–91. https://doi.org/10.1007/s10639-012-9230-z

Comisiynydd Plant Cymru (2026). Tyfu i fyny mewn byd ar-lein. Gw. https://www.complantcymru.org.uk/ein-gwaith/safbwyntiau-polisi/tyfu-i-fyny-mewn-byd-ar-lein/ (cyrchwyd 14 Gorffennaf 2026).

Children's Wellbeing and Schools Act (2026). HMSO. Gw. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2026/21/contents (cyrchwyd 14 Gorffennaf 2026).

Crick, T., Beauchamp, G. a Thomas, E. (2024). Golygyddol – Newid Gwleidyddol, Ffocws o'r Newydd ar Ddiwygio a Chyflawni Blaenoriaethau Addysg Cymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 26(1). https://doi.org/10.16922/wje.26.1.gol

Crick, T., Beauchamp, G. a Thomas, E. (2026). Golygyddol – Newid Addysgol yng Nghymru: Y Cwricwlwm, Capasiti a Senedd nesaf Cymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 28(1). https://doi.org/10.16922/wje.28.1.1cym

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (2021). HMSO. Gw. https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/4/contents/welsh (cyrchwyd 14 Gorffennaf 2026).

Deddf Llywodraeth Cymru (1998). HMSO. Gw. https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/38/contents (cyrchwyd 14 Gorffennaf 2026).

Davies, A. J. a Beauchamp, G. (2024). 'Pwy a gyfyd Cymru? By whom shall Wales be raised?' Chwarter canrif o bolisi addysg datganoledig yng Nghymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 26(2). https://doi.org/10.16922/wje.26.2.1cym

Edwards, A. (2005). Relational agency: Learning to be a resourceful practitioner. *International Journal of Educational Research*, 43(3), 168–82. https://doi.org/10.1016/j.ijer.2006.06.010

Estyn (2026). Adroddiad sector 2024–2025: Addysg gychwynnol athrawon. Gw. https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2025/12/addysg-gychwynnol-athrawon-2026-02-11.pdf (cyrchwyd 14 Gorffennaf 2026).

Grigg, R., Lewis, H., Morse, M. a Crick, T. (2024). Rethinking student teachers' professional learning in Wales: promoting reflection-in-action. *The Curriculum Journal*, 35(4), 690–705. https://doi.org/10.1002/curj.271

Harris, A., Wyn, J. a Younes, S. (2010). Beyond apathetic or activist youth: 'Ordinary' young people and contemporary forms of participation. *Young*, 18(1), 9–32. https://doi.org/10.1177/110330880901800103

ITV News Wales (2026). Andy Burnham leadership speech, Manchester, 29 June 2026. Gw. https://www.itv.com/news/wales/2026-06-29/andy-burnham-promises-opportunities-to-extend-devolution-for-wales (cyrchwyd 14 Gorffennaf 2026).

Knight, C., Conn, C., Crick, T. a Brooks, S. (2025). Divergences in the framing of inclusive education across the UK: a four nations critical policy analysis. *Educational Review*, 77(2), 495–511. https://doi.org/10.1080/00131911.2023.2222235

Livingston, K. a Waters-Davies, J. (2024). Agency in negotiating partnerships in initial teacher education: shifting sands. *European Journal of Teacher Education*, 47(5), 1073–90. https://doi.org/10.1080/02619768.2024.2384477

Llywodraeth Cymru (2020). Cwricwlwm i Gymru: Cynllunio eich cwricwlwm: Cyflwyniad. Gw. https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/cyflwyniad/ (cyrchwyd 14 Gorffennaf 2026).

Llywodraeth Cymru (2022). Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm. Gw. https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm (cyrchwyd 14 Gorffennaf 2026).

Moon, D. S. ac Evans, T. (2017). Welsh devolution and the problem of legislative competence. *British Politics*, 12(3), 335–60. https://doi.org/10.1057/s41293-016-0043-3

Ofcom (2026). Children and Parents: Media Use and Attitudes Report 2026. Gw. https://www.ofcom.org.uk/media-use-and-attitudes/media-habits-children/childrens (cyrchwyd 14 Gorffennaf 2026).

Zeichner, K. (2024). Teachers to teach successfully in historically marginalized communities. *Teacher Education Quarterly*, 51(3), 6–24. https://www.jstor.org/stable/27369801